OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2333 (Cy.191)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001 (O.S. 2001/2193 (Cy.155)), sy'n darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd ynghylch cynhyrchu a marchnata gwin a chynhyrchion cysylltiedig.

Mae'r Rheoliadau hyn-

(a) yn diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd drwy wneud newidiadau i'r diffiniadau yn Rheoliadau 2001 (rheoliad 2(2)) a thrwy fewnosod Atodlen 1 newydd yn Rheoliadau 2001 (rheoliad 2(3) a'r Atodlen);

(b) yn ychwanegu Acolon, Cabernet Sauvignon, Frühburgunder (sydd â'r enw cyfystyr Pinot Noir Précoce) a Merlot at y rhestr o amrywogaethau o winwydd y caniateir eu defnyddio wrth gynhyrchu gwinoedd yng Nghymru (rheoliad 2(4));

(c) yn gwneud mân newidiadau yn y profion dadansoddol ar gyfer gwin o safon psr drwy ddileu'r prawf a'r safon ar gyfer cyfanswm yr echdyniad sych disiwgr (rheoliad 2(5)(a)) a dileu'r safon ofynnol sy'n ymwneud â sylffwr deuocsid rhydd (rheoliad 2(5)(b)); ac

(ch) yn gwneud mân newid yn y profion dadansoddol ar gyfer gwinoedd i'r bwrdd sydd â mynegiad daearyddol drwy ddileu'r prawf a'r safon ar gyfer cyfanswm yr echdyniad sych (rheoliad 2(6)).

Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o effaith yr offeryn hwn ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 2333 (W.191)

## AGRICULTURE, WALES

## The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations amend the Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/2193 (W.155)), which provide for the enforcement in Wales of European Community legislation concerned with the production and marketing of wine and related products.

These Regulations-

(a) update references to European Community legislation by making changes to the definitions in the 2001 Regulations (regulation 2(2)) and inserting a new Schedule 1 into the 2001 Regulations (regulation 2(3) and the Schedule);

(b) add Acolon, Cabernet Sauvignon, Frühburgunder (with the synonym Pinot Noir Précoce) and Merlot to the list of vine varieties that may be used in the production of wines in Wales (regulation 2(4));

(c) make minor changes to the analytical tests for quality wine psr by removing the total sugar-free dry extract test and standard (regulation 2(5)(a)) and removing the minimum standard relating to free sulphur dioxide (regulation 2(5)(b)); and

(d) make a minor change to the analytical tests for table wines with a geographical indication by removing the total dry extract test and standard (regulation 2(6)).

A full regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have is available from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2333 (Cy.191)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *8 Awst 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *13 Awst 2007* |
| *Yn dod i rym* | *4 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**2**) ac o ran mesurau sy'n ymwneud â bwydydd (gan gynnwys diodydd) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol bwydydd(**3**).

Cafwyd ymgynghori cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod gwaith paratoi'r Rheoliadau canlynol yn unol â gofynion Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**4**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972:

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2003/2901. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**4**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 2333 (W.191)

## AGRICULTURE, WALES

## The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *8 August 2007* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *13 August 2007* |
| *Coming into force* | *4 September 2007* |

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**) in relation to the common agricultural policy of the European Community(**2**) and in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food(**3**).

There has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations as required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council(**4**) laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety.

The Welsh Ministers make the following Regulations under the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972:

(**1**) 1972 c.68.

(**2**) S.I. 2005/2766. By virtue of sections 59(1) and 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers.

(**3**) S.I. 2003/2901. By virtue of sections 59(1) and 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales by this designation are exercisable by the Welsh Ministers.

(**4**) OJ No. L31, 1.2.2002, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p. 3).

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 4 Medi 2007.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 2001" ("*the 2001 Regulations*") yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001(**1**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau 2001

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau 2001 fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn lle diffiniadau "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1622/2000", "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1623/2000", "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 883/2001", "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2001", "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 753/2002" a "Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999"(**2**) rhodder y diffiniadau canlynol-

> "ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1622/2000" ("*Commission Regulation (EC) No. 1622/2000*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1622/2000 (**3**) sy'n nodi rheolau manwl penodol ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin a sefydlu cod Cymunedol ar arferion a phrosesau gwinyddol, a rhaid dehongli'r cyfeiriadau yn Atodlenni 2 a 5 at "Reoliad 1622/2000" yn unol â hynny;";

> "ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1623/2000" ("*Commission Regulation (EC) No. 1623/2000*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1623/2000(**4**) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin o ran mecanweithiau'r farchnad, a rhaid dehongli'r cyfeiriad yn Rhan I o Atodlen 2 at "Reoliad 1623/2000" yn unol â hynny;";

(**1**) O.S. 2001/2193 (Cy.155) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/1776 (Cy.192), O.S. 2004/2599 (Cy.232) ac O.S. 2006/1716 (Cy.178).

(**2**) Mewnosodwyd y diffiniad o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/99 yn Rheoliadau 2001 gan O.S. 2004/2599 (Cy.232) a'i ddisodli wedyn gan O.S. 2006/1716 (Cy.178). Mewnosodwyd y diffiniadau o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1622/2000, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1623/2000, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 883/2001, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2001 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 753/2002 yn Rheoliadau 2001 gan O.S. 2006/1716 (Cy.178).

(**3**) OJ Rhif L 194, 31.7.2000, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 389/2007 (OJ Rhif L 97, 12.4.2007, t.5).

(**4**) OJ Rhif L 194, 31.7.2000, t.45, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2016/2006 (OJ Rhif L 384, 29.12.2006, t.38).

### Title, commencement and interpretation

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) (Amendment) Regulations 2007 and they come into force on 4 September 2007.

(2) In these Regulations "the 2001 Regulations" ("*Rheoliadau 2001*") means the Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) Regulations 2001(**1**).

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

### Amendment of the 2001 Regulations

**2**.-(1) The 2001 Regulations are amended as follows.

(2) In regulation 2(1), replace the definitions of "Commission Regulation (EC) No. 1622/2000", "Commission Regulation (EC) No. 1623/2000", "Commission Regulation (EC) No. 883/2001", "Commission Regulation (EC) No. 884/2001", "Commission Regulation (EC) No. 753/2002" and "Council Regulation (EC) No. 1493/1999"(**2**) with the following definitions-

> ""Commission Regulation (EC) No. 1622/2000" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1622/2000*") means Commission Regulation (EC) No. 1622/2000(**3**) laying down certain detailed rules for implementing Regulation (EC) No. 1493/1999 on the common organisation of the market in wine and establishing a Community code on oenological practices and processes, and references in Schedules 2 and 5 to "Regulation 1622/2000" must be construed accordingly;";

> ""Commission Regulation (EC) No. 1623/2000" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1623/2000*") means Commission Regulation (EC) No. 1623/2000(**4**) laying down detailed rules for implementing Regulation (EC) No. 1493/1999 on the common organisation of the market in wine with regard to market mechanisms, and the reference in Part I of Schedule 2 to "Regulation 1623/2000" must be construed accordingly;";

(**1**) S.I. 2001/2193 (W.155) as amended by S.I. 2003/1776 (W.192), S.I. 2004/2599 (W.232) and S.I. 2006/1716 (W.178).

(**2**) The definition of Council Regulation (EC) No. 1493/99 was inserted in the 2001 Regulations by S.I 2004/2599 (W.232) and subsequently substituted by S.I. 2006/1716 (W.178). The definitions of Commission Regulation (EC) No. 1622/2000, Commission Regulation (EC) No. 1623/2000, Commission Regulation (EC) No. 883/2001, Commission Regulation (EC) No. 884/2001 and Commission Regulation (EC) No. 753/2002 were inserted in the 2001 Regulations by S.I. 2006/1716 (W.178).

(**3**) OJ No. L 194, 31.7.2000, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 389/2007 (OJ No. L 97, 12.4.2007, p. 5).

(**4**) OJ No. L 194, 31.7.2000, p. 45, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2016/2006 (OJ No. L 384, 29.12.2006, p . 38).

"ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 883/2001" ("*Commission Regulation (EC) No. 883/2001*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 883/2001(**1**) sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999 o ran masnach gyda thrydydd gwledydd mewn cynhyrchion yn y sector gwin, a rhaid dehongli'r cyfeiriad yn Rhan V o Atodlen 2 at "Reoliad 883/2001" yn unol â hynny;";

"ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2001" ("*Commission Regulation (EC) No. 884/2001*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2001(**2**) sy'n gosod rheolau cymhwyso manwl ynghylch y dogfennau sydd i fynd gyda'r cynhyrchion gwin wrth iddynt gael eu cludo, a'r cofnodion sydd i'w cadw yn y sector gwin, a rhaid dehongli'r cyfeiriad yn Rhan I o Atodlen 2 at "Reoliad 884/2001" yn unol â hynny;";

"ystyr "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 753/2002" ("*Commission Regulation (EC) No. 753/2002*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 753/2002(**3**) sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999 o ran disgrifio, dynodi, cyflwyno a diogelu cynhyrchion penodol y sector gwin;";

"ystyr "Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999" ("*Council Regulation (EC) No. 1493/1999*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999(**4**) ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin, a rhaid dehongli'r cyfeiriadau yn Atodlenni 2 a 5 at "Reoliad 1493/1999" yn unol â hynny;".

(3) Yn lle Atodlen 1, rhodder yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(4) Yn Atodlen 3, mewnosoder y cofnodion canlynol yn y mannau priodol-

| "Enw'r Amrywogaeth | Enwau cyfystyr | Lliw'r grawnwin |
|---|---|---|
| Acolon | | Du |
| Cabernet Sauvignon | | Du |
| Frühburgunder | Pinot Noir Précoce | Du |
| Merlot | | Du" |

(**1**) OJ Rhif L 128, 10.5.2001, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2016/2006.

(**2**) OJ Rhif L 128, 10.5.2001, t.32, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2016/2006.

(**3**) OJ Rhif L 118, 4.5.2002, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 382/2007 (OJ Rhif L 95, 5.4.2007, t.12).

(**4**) OJ Rhif L 179, 14.7.1999, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 (OJ Rhif L 363, 20.12.2006, t.1).

""Commission Regulation (EC) No. 883/2001" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 883/2001*") means Commission Regulation (EC) No. 883/2001(**1**) laying down detailed rules for implementing Council Regulation (EC) No. 1493/1999 as regards trade with third countries in products in the wine sector, and the reference in Part V of Schedule 2 to "Regulation 883/2001" must be construed accordingly;";

""Commission Regulation (EC) No. 884/2001" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2001*") means Commission Regulation (EC) No. 884/2001(**2**) laying down detailed rules of application concerning the documents accompanying the carriage of wine products and the records to be kept in the wine sector, and the reference in Part I of Schedule 2 to "Regulation 884/2001" must be construed accordingly;";

""Commission Regulation (EC) No. 753/2002" ("*Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 753/2002*") means Commission Regulation (EC) No. 753/2002(**3**) laying down certain rules for applying Council Regulation (EC) No. 1493/1999 as regards the description, designation, presentation and protection of certain wine sector products;";

""Council Regulation (EC) No. 1493/1999" means Council Regulation (EC) No. 1493/1999(**4**) on the common organisation of the market in wine, and references in Schedules 2 and 5 to "Regulation 1493/1999" must be construed accordingly;".

(3) For Schedule 1, substitute the Schedule set out in the Schedule to these Regulations.

(4) In Schedule 3, insert the following entries at the appropriate places-

| "Name of Variety | Synonymous Name | Grape Colour |
|---|---|---|
| Acolon | | Black |
| Cabernet Sauvignon | | Black |
| Frühburgunder | Pinot Noir Précoce | Black |
| Merlot | | Black" |

(**1**) OJ No. L 128, 10.5.2001, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2016/2006.

(**2**) OJ No. L 128, 10.5.2001, p. 32, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2016/2006.

(**3**) OJ No. L 118, 4.5.2002, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 382/2007 (OJ No. L 95, 5.4.2007, p. 12).

(**4**) OJ No. L 179, 14.7.1999, p. 1, last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006 (OJ No. L 363, 20.12.2006, p. 1).

(5) Yn Atodlen 5 hepgorer-

(a) paragraff 2; a

(b) brawddeg gyntaf paragraff 7.

(6) Yn Atodlen 6(**1**), hepgorer y cofnod yng ngholofnau 1 a 2 o'r tabl sy'n ymwneud â chyfanswm echdyniad sych (a geir drwy ddwysfesureg).

(5) In Schedule 5 omit-

(a) paragraph 2; and

(b) the first sentence of paragraph 7.

(6) In Schedule 6(**1**), omit the entry in columns 1 and 2 of the table relating to total dry extract (obtained by densimetry).

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

8 Awst 2007

8 August 2007

(**1**) Mewnosodwyd Atodlen 6 gan O.S. 2004/2599 (Cy.232).

(**1**) Schedule 6 was inserted by S.I. 2004/2599 (W.232).

ATODLEN

Rheoliad 2(3)

"ATODLEN 1

Rheoliad 2(1)

Y DARPARIAETHAU CYMUNEDOL

**1**. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 357/79(**1**) ar arolygon ystadegol o arwynebeddau sydd o dan winwydd.

**2**. Rheoliad y Comisiwn (EEC) 1907/85(**2**) ar y rhestr o amrywogaethau o winwydd a'r rhanbarthau sy'n darparu gwin wedi'i fewnforio ar gyfer gwneud gwinoedd pefriol yn y Gymuned.

**3**. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2392/86(**3**).

**4**. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 649/87(**4**) yn gosod rheolau manwl ar gyfer sefydlu cofrestr o winllannoedd y Gymuned.

**5**. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2676/90(**5**).

**6**. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1601/91(**6**) yn gosod rheolau cyffredinol ar ddiffinio, disgrifio a chyflwyno gwinoedd wedi'u persawru, diodydd wedi'u seilio ar win wedi'i bersawru a choctels o gynhyrchion gwin wedi'i bersawru.

**7**. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 2009/92(**7**) yn pennu dulliau dadansoddi Cymunedol ar gyfer ethyl alcohol o darddiad amaethyddol a ddefnyddir i baratoi diodydd gwirodydd, gwinoedd wedi'u persawru, diodydd wedi'u seilio ar win wedi'i bersawru a choctels o gynhyrchion gwin wedi'i bersawru.

**8**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 122/94(**8**) yn gosod rheolau manwl penodol ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EEC) 1601/91 ar ddiffinio, disgrifio a chyflwyno gwinoedd wedi'u persawru, diodydd wedi'u seilio ar win wedi'i bersawru, a choctels o gynhyrchion gwin wedi'i bersawru.

(**1**) OJ Rhif L 54, 5.3.1979, t.124, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1791/2006 (OJ Rhif L363, 20.12.2006, p.1).

(**2**) OJ Rhif L 179, 11.7.1985, t.21, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2016/2006 (OJ Rhif L 384, 29.12.2006, t.38).

(**3**) OJ Rhif L 208, 31.7.1986, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1631/98 (OJ Rhif L 210, 28.7.98, t.14).

(**4**) OJ Rhif L 62, 5.3.1987, t.10, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 1097/89 (OJ Rhif L 116, 28.4.89, t.20).

(**5**) OJ Rhif L 272, 3.10.1990, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1293/2005 (OJ Rhif L 205, 5.8.2005, t.12).

(**6**) OJ Rhif L 149, 14.6.1991, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 2061/96 Senedd Ewrop a'r Cyngor, (OJ Rhif L 277, 30.10.1996, t.1).

(**7**) OJ Rhif L 203, 21.7.1992, t.10.

(**8**) OJ Rhif L 21, 26.1.1994, t.7.

SCHEDULE

Regulation 2(3)

"SCHEDULE 1

Regulation 2(1)

COMMUNITY PROVISIONS

**1**. Council Regulation (EEC) No. 357/79(**1**) on statistical surveys of areas under vines.

**2**. Commission Regulation (EEC) No. 1907/85(**2**) on the list of vine varieties and regions providing imported wine for the making of sparkling wines in the Community.

**3**. Council Regulation (EEC) No. 2392/86(**3**).

**4**. Commission Regulation (EEC) No. 649/87(**4**) laying down detailed rules for the establishment of a Community vineyard register.

**5**. Commission Regulation (EEC) No. 2676/90(**5**).

**6**. Council Regulation (EEC) No. 1601/91(**6**) laying down general rules on the definition, description and presentation of aromatized wines, aromatized wine-based drinks and aromatized wine-product cocktails.

**7**. Commission Regulation (EEC) No. 2009/92(**7**) determining Community analysis methods for ethyl alcohol of agricultural origin used in the preparation of spirit drinks, aromatized wines, aromatized wine-based drinks and aromatized wine-product cocktails.

**8**. Commission Regulation (EC) No. 122/94(**8**) laying down certain detailed rules for the application of Council Regulation (EEC) No. 1601/91 on the definition, description and presentation of aromatized wines, aromatized wine-based drinks, and aromatized wine-product cocktails.

(**1**) OJ No. L 54, 5.3.1979, p. 124, last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006 (OJ No. L363, 20.12.2006, p.1).

(**2**) OJ No. L 179, 11.7.1985, p. 21, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2016/2006 (OJ No. L 384, 29.12.2006, p. 38).

(**3**) OJ No. L 208, 31.7.1986, p. 1, last amended by Council Regulation (EC) No. 1631/98 (OJ No. L 210, 28.7.98, p. 14).

(**4**) OJ No. L 62, 5.3.1987, p. 10, last amended by Commission Regulation (EEC) No. 1097/89 (OJ No. L 116, 28.4.89, p. 20).

(**5**) OJ No. L 272, 3.10.1990, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 1293/2005 (OJ No. L 205, 5.8.2005, p. 12).

(**6**) OJ No. L 149, 14.6.1991, p. 1, last amended by Regulation (EC) No. 2061/96 of the European Parliament and of the Council, (OJ No. L 277, 30.10.1996, p. 1).

(**7**) OJ No. L 203, 21.7.1992, p. 10.

(**8**) OJ No. L 21, 26.1.1994, p. 7.

**9**. Penderfyniad y Cyngor 94/184/EC(**1**) ynghylch gwneud Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd ac Awstralia ar fasnachu gwin.

**10**. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999.

**11**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1227/2000(**2**) yn gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin, o ran y potensial ar gyfer cynhyrchu.

**12**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1607/2000(**3**) yn gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad win, yn benodol y Teitl sy'n ymwneud â gwin o safon a gynhyrchir mewn rhanbarthau penodedig.

**13**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1622/2000.

**14**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1623/2000.

**15**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2729/2000(**4**) yn gosod rheolau gweithredu manwl ar ddulliau rheoli yn y sector gwin.

**16**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 883/2001.

**17**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 884/2001.

**18**. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1037/2001(**5**) yn awdurdodi cynnig a danfon i bobl eu hyfed yn uniongyrchol winoedd penodol sydd wedi'u mewnforio ac sydd wedi mynd drwy brosesau gwinyddol na ddarparwyd ar eu cyfer yn Rheoliad (EC) Rhif 1493/1999.

**19**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1282/2001(**6**) yn gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1493/1999 o ran crynhoi gwybodaeth i adnabod cynhyrchion gwin ac i fonitro'r farchnad win ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1623/2000.

**20**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2597/2001(**7**) yn agor cwotâu tariff Cymunedol ar gyfer gwinoedd penodol yn deillio o Weriniaeth Croatia, cyn Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia a Gweriniaeth Slofenia ac sy'n darparu ar gyfer gweinyddu'r cwotâu hynny, i'r graddau y mae'n cyfeirio at Weriniaeth Croatia.

(**1**) OJ Rhif L 86, 31.3.1994, t.1.

(**2**) OJ Rhif L 143, 16.6.2000, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1216/2005 (OJ Rhif L 199, 29.7.2005, t.32).

(**3**) OJ Rhif L 185, 25.7.2000, p.17, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2030/2006 (OJ Rhif L 414, 30.12.2006, t.40).

(**4**) OJ Rhif L 316, 15.12.2000, t.16, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2030/2006.

(**5**) OJ Rhif L 145, 31.5.2001, t.12, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2079/2005 (OJ Rhif L 333, 20.12.2005, p .6).

(**6**) OJ Rhif L 176, 29.6.2001, t.14.

(**7**) OJ Rhif L 345, 29.12.2001, t.35, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2088/2004 (OJ Rhif L 361, 8.12.2004, t.3).

**9**. Council Decision 94/184/EC(**1**) concerning the conclusion of an Agreement between the European Community and Australia on trade in wine.

**10**. Council Regulation (EC) No. 1493/1999.

**11**. Commission Regulation (EC) No. 1227/2000(**2**) laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No. 1493/1999 on the common organisation of the market in wine, as regards production potential.

**12**. Commission Regulation (EC) No. 1607/2000(**3**) laying down detailed rules for implementing Regulation (EC) No. 1493/1999 on the common organisation of the market in wine, in particular the Title relating to quality wine produced in specified regions.

**13**. Commission Regulation (EC) No. 1622/2000.

**14**. Commission Regulation (EC) No. 1623/2000.

**15**. Commission Regulation (EC) No. 2729/2000(**4**) laying down detailed implementing rules on controls in the wine sector.

**16**. Commission Regulation (EC) No. 883/2001.

**17**. Commission Regulation (EC) No. 884/2001.

**18**. Council Regulation (EC) No. 1037/2001(**5**) authorising the offer and delivery for direct human consumption of certain imported wines which have undergone oenological processes not provided for in Regulation (EC) No. 1493/1999.

**19**. Commission Regulation (EC) No. 1282/2001(**6**) laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No. 1493/1999 as regards the gathering of information to identify wine products and to monitor the wine market and amending Regulation (EC) No. 1623/2000.

**20**. Commission Regulation (EC) No. 2597/2001(**7**) opening and providing for the administration of Community tariff quotas for certain wines originating in the Republic of Croatia, in the former Yugoslav Republic of Macedonia and in the Republic of Slovenia, insofar as it relates to the Republic of Croatia.

(**1**) OJ No. L 86, 31.3.1994, p. 1.

(**2**) OJ No. L 143, 16.6.2000, p. 1, last amended by Commission Regulation (EC) No. 1216/2005 (OJ No. L 199, 29.7.2005, p. 32).

(**3**) OJ No. L 185, 25.7.2000, p.17, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2030/2006 (OJ No. L 414, 30.12.2006, p. 40).

(**4**) OJ No. L 316, 15.12.2000, p. 16, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2030/2006.

(**5**) OJ No. L 145, 31.5.2001, p. 12, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2079/2005 (OJ No. L 333, 20.12.2005, p .6).

(**6**) OJ No. L 176, 29.6.2001, p. 14.

(**7**) OJ No. L 345, 29.12.2001, p. 35, last amended by Commission Regulation (EC) No. 2088/2004 (OJ No. L 361, 8.12.2004, p. 3).

**21**. Penderfyniad y Cyngor 2002/51/EC(**1**) ar wneud Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Gweriniaeth De Affrica ar fasnachu gwin.

**22**. Penderfyniad y Cyngor a'r Comisiwn Rhif 2002/309/EC(**2**) o ran y Cytundeb ar Gydweithredu Gwyddonol a Thechnolegol ar wneud saith Cytundeb gyda Chydffederasiwn y Swistir, i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodiad 7 ar fasnachu cynhyrchion y sector gwin a atodwyd i'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Chydffederasiwn y Swistir ar Fasnachu Cynhyrchion Amaethyddol.

**23**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 753/2002.

**24**. Penderfyniad y Cyngor 2002/979/EC(**3**) ar lofnodi a chymhwyso dros dro ddarpariaethau penodol Cytundeb sy'n sefydlu Cyd-gysylltiad rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau ar y naill law, a Gweriniaeth Chile ar y llall, i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n cyfeirio at fasnachu gwin, gwin wedi'i bersawru, diodydd wedi'u seilio ar win wedi'i bersawru a choctels wedi'u seilio ar gynhyrchion gwin wedi'i bersawru.

**25**. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 527/2003(**4**) yn awdurdodi cynnig a danfon i bobl eu hyfed yn uniongyrchol winoedd penodol sydd wedi'u mewnforio o'r Ariannin ac a allai fod wedi mynd drwy brosesau gwinyddol na ddarparwyd ar eu cyfer yn Rheoliad (EC) Rhif 1493/1999.

**26**. Penderfyniad y Cyngor 2004/91/EC(**5**) ar wneud cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Chanada ar fasnachu gwinoedd a diodydd gwirodydd.

**27**. Penderfyniad y Cyngor 2006/136/EC(**6**) ar wneud Cytundeb ar ffurf Cyfnewid Llythyrau rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Gweriniaeth Chile ynghylch diwygiadau i'r Cytundeb ar Fasnachu Gwinoedd a atodwyd i'r Cytundeb sy'n sefydlu Cyd-gysylltiad rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau ar y naill law, a Gweriniaeth Chile ar y llall.

**28**. Penderfyniad y Cyngor 2006/232/EC(**7**) ar wneud y Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd ac Unol Daleithiau America ar fasnachu gwin.

(**1**) OJ Rhif L 28, 30.1.2002, t.3.

(**2**) OJ Rhif L 114, 30.4.2002, t.1.

(**3**) OJ Rhif L 352, 30.12.2002, t.1.

(**4**) OJ Rhif L 78, 25.3.2003, t.1, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1912/2005 (OJ Rhif L 307, 25.11.2005, t.1).

(**5**) OJ Rhif L 35, 6.2.2004, t.1.

(**6**) OJ Rhif L 54, 24.2.2006, t.23.

(**7**) OJ Rhif L 87, 24.3.2006, t.1.

**21**. Council Decision 2002/51/EC(**1**) on the conclusion of an Agreement between the European Community and the Republic of South Africa on trade in wine.

**22**. Council and Commission Decision 2002/309/EC(**2**) as regards the Agreement on Scientific and Technological Cooperation on the conclusion of seven Agreements with the Swiss Confederation, insofar as it relates to the provisions of Annex 7 on trade in wine sector products annexed to the Agreement between the European Community and the Swiss Confederation on Trade in Agricultural Products.

**23**. Commission Regulation (EC) No. 753/2002.

**24**. Council Decision 2002/979/EC(**3**) on the signature and provisional application of certain provisions of an Agreement establishing an association between the European Community and its Member States, of the one part, and the Republic of Chile, of the other part, insofar as those provisions relate to trade in wine, aromatized wine, aromatized wine-based drinks and aromatized wine-product cocktails.

**25**. Council Regulation (EC) No. 527/2003(**4**) authorising the offer and delivery for direct human consumption of certain wines imported from Argentina which may have undergone oenological processes not provided for in Regulation (EC) No. 1493/1999.

**26**. Council Decision 2004/91/EC(**5**) on the conclusion of the agreement between the European Community and Canada on trade in wines and spirit drinks.

**27**. Council Decision 2006/136/EC(**6**) on the conclusion of an Agreement in the form of an Exchange of Letters between the European Community and the Republic of Chile concerning amendments to the Agreement on Trade in Wines annexed to the Agreement establishing an Association between the European Community and its Member States, of the one part, and the Republic of Chile, of the other part.

**28**. Council Decision 2006/232/EC(**7**) on the conclusion of the Agreement between the European Community and the United States of America on trade in wine.

(**1**) OJ No. L 28, 30.1.2002, p. 3.

(**2**) OJ No. L 114, 30.4.2002, p. 1.

(**3**) OJ No. L 352, 30.12.2002, p. 1.

(**4**) OJ No. L 78, 25.3.2003, p. 1, last amended by Council Regulation (EC) No. 1912/2005 (OJ No. L 307, 25.11.2005, p. 1).

(**5**) OJ No. L 35, 6.2.2004, p. 1.

(**6**) OJ No. L 54, 24.2.2006, p. 23.

(**7**) OJ No. L 87, 24.3.2006, p. 1.

**29**. Penderfyniad y Cyngor 2006/567/EC(**1**) ar wneud Cytundeb ar ffurf Cyfnewid Llythyrau rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Gweriniaeth Chile ynghylch diwygiadau i Atodiadau I, II, III a IV i'r Cytundeb ar Fasnachu Gwinoedd a atodwyd i'r Cytundeb Cyd-gysylltiad rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau ar y naill law, a Gweriniaeth Chile ar y llall.

**30**. Penderfyniad y Cyngor 2006/568/EC(**2**) ar wneud Cytundeb ar ffurf Cyfnewid Llythyrau rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Gweriniaeth Chile ynghylch diwygiadau i Atodiad II i'r Cytundeb ar Fasnachu Diodydd Gwirodydd a Diodydd wedi'u Persawru a atodwyd i'r Cytundeb Cyd-gysylltiad rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau ar y naill law, a Gweriniaeth Chile ar y llall, i'r graddau y mae'n cyfeirio at ddiodydd wedi'u persawru.

**31**. Penderfyniad y Comisiwn 2006/569/EC(**3**) ar wneud Cytundeb ar ffurf Cyfnewid Llythyrau rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Gweriniaeth Chile ynghylch diwygiadau i Atodiad VI i'r Cytundeb ar Fasnachu Gwinoedd a atodwyd i'r Cytundeb Cyd-gysylltiad rhwng y Gymuned Ewropeaidd a'i Haelod-wladwriaethau ar y naill law, a Gweriniaeth Chile ar y llall.

**32**. Penderfyniad y Cyngor 2006/580/EC(**4**) ynghylch llofnodi a gwneud y Cytundeb Interim ar fasnach a materion sy'n gysylltiedig â masnach rhwng y Gymuned Ewropeaidd ar y naill law, a Gweriniaeth Albania ar y llall, i'r graddau y mae'n cyfeirio at win a diodydd wedi'u persawru.

**33**. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1416/2006(**5**) sy'n nodi rheolau penodol ar weithredu Erthygl 7(2) o'r Cytundeb rhwng y Gymuned Ewropeaidd ac Unol Daleithiau America ar fasnachu gwin ynghylch diogelu enwau tarddleoedd o'r Unol Daleithiau yn y Gymuned."

(**1**) OJ Rhif L 231, 24.8.2006, t.1.

(**2**) OJ Rhif L 231, 24.8.2006, t.135.

(**3**) OJ Rhif L 231, 24.8.2006, t.139.

(**4**) OJ Rhif L 239, 1.9.2006, t.1.

(**5**) OJ Rhif L 267, 27.9.2006, t.22.

**29**. Commission Decision 2006/567/EC(**1**) on the conclusion of an Agreement in the form of an Exchange of Letters between the European Community and the Republic of Chile concerning amendments to Appendices I, II, III and IV of the Agreement on Trade in Wines annexed to the Association Agreement between the European Community and its Member States, of the one part, and the Republic of Chile, of the other part.

**30**. Commission Decision 2006/568/EC(**2**) on the conclusion of an Agreement in the form of an Exchange of Letters between the European Community and the Republic of Chile concerning amendments to Appendix II of the Agreement on Trade in Spirit Drinks and Aromatised Drinks annexed to the Association Agreement between the European Community and its Member States, of the one part, and the Republic of Chile, of the other part, insofar as it relates to aromatised drinks.

**31**. Commission Decision 2006/569/EC(**3**) on the conclusion of an Agreement in the form of an Exchange of Letters between the European Community and the Republic of Chile concerning amendments to Appendix VI of the Agreement on Trade in Wines annexed to the Association Agreement between the European Community and its Member States, of the one part, and the Republic of Chile, of the other part.

**32**. Council Decision 2006/580/EC(**4**) concerning the signing and conclusion of the Interim Agreement on trade and trade-related matters between the European Community, of the one part, and the Republic of Albania, of the other part, insofar as it relates to wine and aromatised drinks.

**33**. Commission Regulation (EC) No. 1416/2006(**5**) laying down specific rules on the implementation of Article 7(2) of the Agreement between the European Community and the United States of America on trade in wine concerning the protection of US names of origin in the Community."

(**1**) OJ No. L 231, 24.8.2006, p. 1.

(**2**) OJ No. L 231, 24.8.2006, p. 135.

(**3**) OJ No. L 231, 24.8.2006, p. 139.

(**4**) OJ No. L 239, 1.9.2006, p. 1.

(**5**) OJ No. L 267, 27.9.2006, p. 22.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 Rhif 2333 (Cy.191)

# 2007 No. 2333 (W.191)

## AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2007

The Common Agricultural Policy (Wine) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

©© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W114/08/07 ON